



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cofnod y Trafodion The Record of Proceedings

[Y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu](#)

[The Culture, Welsh Language and
Communications Committee](#)

20/10/2016

[Agenda'r Cyfarfod](#)

[Meeting Agenda](#)

[Trawsgrifiadau'r Pwyllgor](#)

[Committee Transcripts](#)

Cynnwys
Contents

- 4 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau
Introductions, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest
- 5 Sesiwn Graffu Gyffredinol gydag Ofcom
General Scrutiny of Ofcom
- 51 Papurau i'w Nodi
Papers to Note
- 52 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i Benderfynu Gwahardd y Cyhoedd
o'r Cyfarfod
Motion under Standing Order 17.42 to Resolve to Exclude the Public
from the Meeting

Cofnodir y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y pwyllgor. Yn ogystal, cynhwysir trawsgrifiad o'r cyfieithu ar y pryd. Lle y mae cyfranwyr wedi darparu cywiriadau i'w tystiolaeth, nodir y rheini yn y trawsgrifiad.

The proceedings are reported in the language in which they were spoken in the committee. In addition, a transcription of the simultaneous interpretation is included. Where contributors have supplied corrections to their evidence, these are noted in the transcript.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Hannah Blythyn Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
Suzy Davies Bywgraffiad Biography	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives
Neil Hamilton Bywgraffiad Biography	UKIP Cymru UKIP Wales
Bethan Jenkins Bywgraffiad Biography	Plaid Cymru (Cadeirydd y Pwyllgor) The Party of Wales (Committee Chair)
Dai Lloyd Bywgraffiad Biography	Plaid Cymru The Party of Wales
Jeremy Miles Bywgraffiad Biography	Llafur Labour
David Rees Bywgraffiad Biography	Llafur (yn dirprwyo ar ran Lee Waters) Labour (substitute for Lee Waters)

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Mark Sweeney	Cyfarwyddwr Materion Llywodraethu a Rheoleiddio, Ofcom Director of Government and Regulatory Affairs, Ofcom
Rhodri Williams	Cyfarwyddwr Cymru, Ofcom Director Wales, Ofcom

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Steve George	Clerc Clerk
Gwyn Griffiths	Uwch-gynghorydd Cyfreithiol Senior Legal Adviser
Adam Vaughan	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Robin Wilkinson	Y Gwasanaeth Ymchwil Research Service

Dechreuodd y cyfarfod am 09:31.

The meeting began at 09:31.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau Introductions, Apologies, Substitutions and Declarations of Interest

[1] **Bethan Jenkins:** Diolch a chroeso i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu. Eitem un ar yr agenda yw 'cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon' a chroeso i Aelodau'r Cynulliad yma heddiw. Os bydd yna larwm tân, dylai pawb adael yr ystafell drwy'r allanfeydd tân penodol a dilyn cyfarwyddiadau'r tywyswyr a'r staff. Ni ddisgwylir prawf heddiw. Dylai pawb droi eu ffonau symudol i fod yn dawel.

Bethan Jenkins: A very warm welcome to the Culture, Welsh Language and Communications Committee. Item one on our agenda is 'introductions, apologies and substitutions'. I'd like to welcome Assembly Members here today. In the event of a fire alarm, everyone should leave the room by the fire exits and follow the instructions from the ushers and staff. We're not expecting a test today. Everyone should turn their mobile phones to silent.

[2] The National Assembly operates bilingually. So, headphones are available to hear simultaneous translation and to adjust the audio for people who are hard of hearing. Simultaneous translation is available on channel 1 and sound amplification on channel 0.

[3] Nid oes angen cyffwrdd â'r botymau ar y microffonau oherwydd y gallai hynny amharu ar y system, a gofawch fod y golau coch ymlaen cyn dechrau siarad. A oes unrhyw datgan—buddiant i'w ddatgan? Na. Grêt, diolch.

You don't need to touch the buttons on the microphones because that can disable the system, and please ensure that the red light is on before you start speaking. Does anyone have any declarations of interest? No. Excellent, thank you.

[4] Ymddiheuriadau: mae Lee Waters wedi cynnig ei ymddiheuriadau, ac mae David Rees—croeso i David Rees—yn lle Lee Waters yma heddiw. Mae Dawn Bowden hefyd wedi cynnig ymddiheuriadau, ond nid oes neb wedi dod i ddirprwyo iddi yma heddiw.

Apologies: we've received apologies from Lee Waters, and David Rees will be substituting for him—a very warm welcome to you. Dawn Bowden has also apologised, but we have no substitute for her today.

09:32

Sesiwn Graffu Gyffredinol gydag Ofcom General Scrutiny of Ofcom

[5] **Bethan Jenkins:** Eitem 2 ar yr agenda yw sesiwn craffu cyffredinol gydag Ofcom. Nid wyf yn siŵr a ydy Ofcom wedi gweld, ond rydym ni wedi bod yn cymryd tystiolaeth gan y BBC, ITV, S4C, ac rydym ni eisiau, fel pwyllgor newydd, sicrhau ein bod ni'n cymryd tystiolaeth gan y sector er mwyn sicrhau ein bod ni yn y Cynulliad yma yn cael mewnbwn i mewn i'r hyn sydd yn digwydd o ran darlledu yma yng Nghymru. Felly, diolch yn fawr i Rhodri Williams, cyfarwyddwr Cymru Ofcom, a Mark Sweeney, cyfarwyddwr materion llywodraethol a rheoleiddio, yma heddiw. Os oes pwt bach gennych i'w ddweud yn glou—ond mae digon o gwestiynau gyda ni, fel yr ydych chi'n gallu ei ddychmygu, i'w gofyn i chi fel Aelodau Cynulliad.

Bethan Jenkins: Item 2 on our agenda is a general scrutiny session with Ofcom. I'm not sure if Ofcom will be aware of this, but we have been gathering evidence from the BBC, ITV, S4C and, as a new committee, we want to ensure that we do take evidence from the sector to ensure that we, in this Assembly, do have an input into what's happening in terms of broadcasting in Wales. So, thank you very much to Rhodri Williams, director for Wales from Ofcom, and Mark Sweeney, director of governance and regulatory affairs, for being here today. If you do want to make an opening statement, you're welcome to do so, but we have plenty of questions, as you can imagine. So, over to you.

[6] **Mr Sweeney:** Excellent. Thank you very much, Chair. Committee, thank you very much for inviting us to come and give evidence to you today. We're very grateful to have the opportunity. I will, if you are happy, just say a very, very brief word, then, in that case, about Ofcom's new responsibilities, but I will keep it brief because I'm sure you'd like to get into questions. And, I'm happy to develop, obviously, any of this throughout the session. The first thing to say, really, is that, as you all know, the new charter and agreement marks a significant departure. It will be the first time that the BBC has had an external regulator. From our perspective, the distinction between the governance of the BBC and the role of the unitary board in running the BBC, and our role as an external regulator holding it to account, is critical, and I expect we might explore what that distinction will mean in practice in this session.

[7] Broadly speaking, we have three sets of responsibilities in relation to the BBC in the new dispensation, once it is put in place from April next year. The first is to ensure editorial standards are upheld across the BBC—to act as a backstop regulator for complaints in that context. The second is a role in relation to the BBC's performance: to hold it to account for delivering the public purposes, which includes, but is not limited to, setting the operating licence. And, finally, we have a role in relation to the competitive impact of the BBC, and, effectively, ensuring that, while the BBC is able to deliver its public purposes and its mission, at the same time, the impact that it has on the market as it does so is proportionate to the public gain. There are various other aspects of our role, which I won't go into in detail now, but, as we look towards the likelihood of the charter agreement being agreed in November, we're beginning, obviously, to turn to working through how we will implement our responsibilities in each of those areas, and we'll be conducting public consultations in each. I will stop there and invite questions.

[8] **Bethan Jenkins:** Diolch yn fawr iawn am fod yn fyr. Fy nghwestiwn cyntaf i yw: rŷm ni wedi gofyn i'r BBC, ITV ac S4C os bydden nhw'n fodlon rhoi adroddiad blynyddol gerbron y Cynulliad. Yn amlwg, rŷch chi wedi dod i mewn yn y gorffennol, ond nid ydych chi wedi dod i mewn yn strwythurol, felly. A fyddech chi fel endid yn barod i roi eich adroddiad rŷch chi'n ei wneud gerbron y Cynulliad, er mwyn sicrhau bod yna sicrwydd o ran sgrwtineiddio Ofcom yn flynyddol?

Bethan Jenkins: Thank you very much for your brevity. My first question is: we've asked the BBC, ITV and S4C if they would be willing to lay an annual report before the Assembly. Now, clearly, you have appeared in the Assembly in the past but haven't done so on a structured basis. So, would you as an entity be willing to lay your annual report before the Assembly, in order to ensure that there is annual scrutiny of Ofcom?

[9] **Mr Sweeney:** I think there are two aspects to this, if I may. The first thing is, in relation to the BBC regulation specifically: the charter will require us to produce an annual report on how we have discharged our duties. I think the charter is silent on what we should then do with that report. I see no reason at all why we would not want to make it available to each of the devolved legislatures as well as to Parliament. The other point, as I'm sure you know, is that Ofcom already produces an annual report on a range of our activities, which will continue. We were committed, originally by the Smith

Commission in relation to Scotland, and then by the St David's Day agreement in Wales, and also in Northern Ireland, to agree a memorandum of understanding between Ofcom, the devolved administrations, the UK Government and the devolved legislatures. So, I imagine we'll also come to address that point about laying our annual report through the agreement of an MoU with the Assembly and with the Welsh Government. So, I think the short answer is: I don't see a difficulty with that.

[10] **Bethan Jenkins:** A allwch chi **Bethan Jenkins:** Could you just tell us
 jest ehangu ar pryd bydd y when that memorandum will be in
 memorandwm hwnnw'n cychwyn? place? When will you actually make
 Pryd byddwch chi'n gwneud y that memorandum with the Assembly
 memorandwm hwnnw gyda'r specifically?
 Cynulliad yn benodol?

[11] **Mr Sweeney:** The initiative on this, I think, sits with the UK and Welsh Governments at the moment. So, I think, from that perspective, we're ready to begin discussing the content of the memorandum more or less now. We are in the final stages of agreeing a memorandum of understanding with the Scottish Government and Parliament. The Scottish Parliament's relevant committee, the committee analogous to this, considered a draft of that memorandum, I think three weeks ago, and it's set to be voted on on the floor of the Scottish Parliament shortly. We expect that—that is likely to provide the template—but, obviously, it may need to vary to reflect the specific concerns and issues in each nation. So, again, the short answer: I think we can begin talking about that now.

[12] **Bethan Jenkins:** Jest i **Bethan Jenkins:** Just to confirm,
 gadarnhau, felly: rŷch chi'n disgwyl i therefore, would you expect the
 Lywodraeth Cymru ddechrau'r Welsh Government to start those
 trafodaethau hynny? Oherwydd, yn negotiations? Because, clearly, we as
 amlwg, byddai diddordeb gyda ni fel a committee would be interested in
 pwyllgor i edrych ar y memorandwm looking at that memorandum also.
 hwn hefyd. Felly, ai'r broses yw y So, would the process be that it
 byddai hynny yn mynd i'r would go to Government first, and
 Llywodraeth yn gyntaf, ac wedyn then that the Government would
 bydd y Llywodraeth yn siarad â'r communicate with the Assembly? I
 Cynulliad? Nid wyf yn siŵr beth wasn't sure what you meant in that
 roeddech chi'n ei ddweud yn hynny o regard?
 beth.

[13] **Mr Sweeney:** My expectation is that the UK Government would begin the process, because it was a commitment made by the UK Government to the devolved administrations in each of Edinburgh, Cardiff and Belfast. The way in which the UK Government approached it in relation to Scotland was to discuss a draft of the memorandum with the devolved administration and with us, and then to invite the relevant parliamentary committee in the Scottish Parliament to give their views. So, I think my suggestion would be that, in the first instance, the committee should discuss with the Welsh Government and find out where they are in the process.

[14] **Bethan Jenkins:** Océ, diolch yn fawr. Mae hynny'n helpu. Jest i fynd ymlaen at Gymru'n benodol: yn amlwg, mae Ofcom yn gweithredu yma ac mae yna bwyllgor ymgynghorol yng Nghymru sy'n cael canllawiau gweithredu. Sut ydych chi'n sicrhau anghenion penodol Cymru yn sgil eich gwaith trwy Ofcom Cymru? Sut mae beth mae Ofcom Cymru yn ei wneud yn adlewyrchu Cymru a beth mae dinasyddion Cymru ei eisiau? A hefyd, beth yw eich cyfathrebu, wedyn, gydag Ofcom yn ganolog?

Bethan Jenkins: Okay, thank you. That's a great help. If I could just move to Wales specifically: it's clear that Ofcom operates here and that there is an advisory committee in Wales that receives operational guidance. How do you secure the specific needs of Wales in terms of your work through Ofcom Wales? How does the activity of Ofcom Wales reflect the aspirations of the citizens of Wales? And also, what is your communication, then, with Ofcom centrally?

[15] **Mr Williams:** Wel, i ddechrau, trwy ein gwaith ni fel swyddogion yng Nghymru, rŷm ni'n cymryd mai un o'r pethau cyntaf rŷm ni'n gorfod eu gwneud yw cael dealltwriaeth glir o'r anghenion ac o'r materion hynny yng Nghymru sydd yn fwy pwysig, efallai, nag y bydden nhw yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig. Mae'r pwyllgor cynghori rŷch chi'n cyfeirio ato fe yn ein cynorthwyo ni i wneud hynny, a'r hyn rŷm ni wedi'i wneud dros y blynyddoedd diwethaf yw ceisio sicrhau bod gennym ni, ar y pwyllgor, grŵp o bobl sydd yn

Mr Williams: Well, to begin with, through our work as officials in Wales, we assume that one of the first things that we must do is to gain a clear understanding of the needs and of those issues in Wales that are more important, perhaps, than they may be generally across the United Kingdom. The advisory committee that you refer to assists us in doing that, and what we have done over the past years is endeavour to ensure that we have a group of people on the committee who are experts in one or more of those areas that we

arbenigwyr mewn un neu ragor o'r meysydd yr ŷm ni'n gyfrifol amdany nhw. Er enghraifft, mae cadeirydd y pwyllgor, John Davies, wedi bod yn gyfrifol yn y gorffennol am redeg beth oedd, bryd hynny, yn BT Wholesale, ac felly mae'n arbenigwr ar faterion telegyfathrebu. Mae Huw Roberts, aelod arall o'r pwyllgor, wedi bod yn gyfrifol am weithredu'r Post Brenhinol yng Nghymru.

are responsible for. For example, the chair, John Davies, in the past was responsible for running what was called BT Wholesale, and therefore he is an expert on telecommunication issues. Huw Roberts, another member of the committee, was responsible for running the Royal Mail in Wales.

[16] Felly, trwy ein hymwneud ni â'n rhanddeiliaid—a phan rŷm ni'n sôn am randdeiliaid, nid ydym ni'n sôn fan hyn am gwmnïau masnachol yn unig, rŷm ni'n sôn am unrhyw un sydd am siarad gyda ni, ac am y rheswm hwnnw, rŷm ni'n cynnal digwyddiadau y tu allan i Gaerdydd, er enghraifft yn y sioe amaethyddol yn Llanelwedd, i wrando ar gonsŷrn y cymunedau gwledig hynny, sydd, wrth gwrs, fel y byddwch chi i gyd yn ei wybod, â phryderon ynglŷn ag argaeledd gwasanaethau band eang, ffonau symudol ac ati. A'r hyn yr ŷm ni'n ei wneud wedyn yw cymryd y wybodaeth yna, ei fwydo i mewn i'r system yn Ofcom, ac mae yna ddigon o gyfle ers y cychwyn cyntaf.

So, through our engagement with our stakeholders—and when we talk about stakeholders, we're not here talking about commercial companies only, we are actually thinking of anybody who wishes to talk to us, and for that reason, we hold events outside Cardiff, for example at the agricultural show in Builth Wells, to listen to the concern of those rural communities, which, of course, as you will all know, have concerns about the availability of broadband services, mobile phone signal and so on. And what we then do is take that information, feed it into the system in Ofcom, and there are ample opportunities, since its very inception, to do that.

[17] Mae Ofcom wedi'i drefnu mewn ffordd sy'n ei wneud yn rhwydd i ni fynegi'r materion hynny sydd o bwys i ni yng Nghymru i'n cydweithwyr yn Llundain, ac wedyn defnyddio eu harbenigedd nhw i geisio sicrhau gwelliannau yn y meysydd hynny. Ac rŷm ni'n teimlo bod y system honno yn gwella. Dros

Ofcom has been organised in a way that has made it easy for us to express those matters of import in Wales to our colleagues in London, and then to use their expertise to seek improvements in those areas and those fields. And we believe that that system is improving. Over time, stakeholders get used to our way of

amser, mae rhanddeiliaid yn dod i arfer â'n ffordd ni o weithio, o fwydo mewn i'n rhaglen waith flynyddol, ac mae'r Llywodraeth hefyd yn gyfarwydd â gwneud hynny. Rŷm ni'n edrych ymlaen at gael gwelliant eto yn y sefyllfa honno wrth inni benodi aelod o'r bwrdd a fydd yn benodol yn eistedd yno fel aelod dros Gymru.

[18] **Bethan Jenkins:** A allech chi jest roi rhyw gwpwl o enghreifftiau, cyn inni symud ymlaen, o'r hyn sydd wedi cael ei ddysgu gan eich cyfathrebiad gyda dinasyddion Cymru, er enghraifft trwy'r sesiynau amaethyddol? Achos, weithiau, rŷm ni'n ansicr ynglŷn â beth sydd yn newid mewn lot o sectorau, fel y bydd rhai yn cwestiynu o ran radio. Beth sydd yn gwella, wedyn, yn sgil y ffaith bod y sesiynau yma'n digwydd?

[19] **Mr Williams:** Rwy'n credu mai'r enghreifftiau y byddwn i'n cyfeirio atyn nhw fyddai ym myd y band eang a hefyd ym myd gwasanaethau ffôn symudol, lle mae'r ddealltwriaeth—. Rwy'n credu, os awn ni nôl i ban gafodd Ofcom ei sefydlu yn 2004, roedd yna rhyw deimlad, efallai, mai dyna sut oedd pethau—os oeddech chi'n byw mewn ardaloedd gwledig, ni fydech chi'n derbyn gwasanaethau o'r math yna, ac fe fydden nhw ond ar gael mewn rhai ardaloedd penodol. Rwy'n credu erbyn hyn bod y ddealltwriaeth—ac rwy'n credu bod Sharon White, ein prif weithredwr, sydd wedi bod gyda ni yn ei swydd ers rhyw flwyddyn

working, and of feeding into our annual work programme, and the Government is also familiar with doing that. We look forward to a further improvement in that situation as we appoint a member of the board who will be specifically sitting there as a member for Wales.

Bethan Jenkins: Can you just give us a few examples, before we move on, of what you have learned from your communications with the citizens of Wales, for example in the sessions in the Royal Welsh? Because, on occasion, we're uncertain as to what is changing in many sectors, as you will hear later in terms of radio. So, what improvements have been made, then, in light of the fact that you are holding these sessions?

Mr Williams: Well, I believe that the examples that I would allude to would be in the areas of broadband and also mobile phone services, where the understanding—. I believe, if we go back to the establishment of Ofcom in 2004, there was a feeling, perhaps, that that's how things were—if you lived in a rural area, then you wouldn't receive those kinds of services, and they would only be available in some specific areas. I believe, by now, that the understanding—and I believe that Sharon White, our chief executive, who has been in post for almost a year now, has made it clear that we, by now consider receiving affordable,

bellach, wedi gwneud yn glir ein bod ni bellach yn ystyried bod cael gwasanaethau band eang fforddiadwy, dibynadwy a chyflym yn rhywbeth sydd yn rhaid i ddinasyddion, lle bynnag maen nhw'n byw, ei dderbyn. Felly, mae'r canfyddiad—nid yn unig o fewn Ofcom; rwy'n credu ei fod yn wir mewn cylchoedd ehangach na hynny—o bwysigrwydd y gwasanaethau hynny—.

dependable and speedy broadband services as something that citizens, wherever they may live, should receive. So, the perception—not only within Ofcom; I believe that it's true in wider circles than that—of the importance of those services—.

[20] Ac wrth sôn am y sector amaethyddol, wrth gwrs, lle mae yna reidrwydd ar ffermwyr i wneud mwy a mwy o'u gwaith yn electronig, lle nad yw ei wneud ar bapur yn opsiwn rhagor—mae hynny wedi cael ei fynegi yn glir i ni gan gynrychiolwyr o'r sector amaethyddol. Ac, yn y gorffennol, mae prif weithredwr Ofcom, y prif weithredwr diwethaf, wedi dod i Lanelwedd i wrando'n uniongyrchol, ac rwy'n credu bod gwrando yn uniongyrchol, bod mynd i lefydd—. Yn ddiweddar, buon ni lan mewn lle o'r enw Llanymawddwy, un o'r llefydd mwyaf pellennig yr ydw i wedi bod ynddyn nhw yng Nghymru erioed, i glywed y bydden nhw'n mynd o fod heb fand—eang o gwbl i fod â gwasanaeth ffibr i'r eiddo a fydd yn delifro gwasanaeth o 300 Mb yr eiliad.

And you referred to the agricultural sector, of course, where farmers are duty-bound, almost, to carry out their work electronically, as doing it in writing is not an option anymore—that has been expressed clearly to us by representatives of the agricultural sector. And, in the past, the former chief executive of Ofcom came to Builth Wells to listen directly, and I think that listening directly, going to places—. Recently, we visited a place called Llanymawddwy, one of the most isolated places I've ever visited in Wales, in order to hear that they would be going from not having any sort of broadband whatsoever to receiving fibre to the property service that will deliver a service of 300 Mbps.

[21] **Bethan Jenkins:** A beth fydd yn newid gyda chael yr aelod Cymraeg ar fwrdd canolog Ofcom?

Bethan Jenkins: And what will change in having a Welsh representative on Ofcom's central board?

[22] **Mr Williams:** Rwy'n credu ei bod yn sicr yn mynd i fod yn fanteisiol bod yna rywun o Gymru yn eistedd ar y bwrdd. Ar hyn o bryd, mae gyda ni gynrychiolwyr ar y bwrdd cynnwys ac mae gyda ni gynrychiolydd ar y panel defnyddwyr—cyfathrebu. Mae yna fantais glir o gael rhywun yn eistedd ar fwrdd Ofcom fydd nid yn unig yn siarad ynglŷn â materion penodol o ran Cymru, wrth gwrs, ond yn rhan o'r trafodaethau cyffredinol hynny ynglŷn â pholisi Ofcom sydd â goblygiadau pellgyrhaeddol i bobl yng Nghymru. Felly, mae hynny yn rhywbeth y mae pobl—. Rwy'n cofio y gwnaeth Llywodraeth Cymru, yn y dyddiau cynnar, bwysu am hynny pan basiwyd Deddf Cyfathrebu 2003. Ni ddigwyddodd e bryd hynny, ond mae yn mynd i ddigwydd yn y dyfodol agos.

Mr Williams: I believe it's certainly going to be advantageous to have somebody from Wales sitting on that board. At present, we have representatives on the content board and we have representatives on the communication and users panel. There is a clear advantage in having somebody sitting on the Ofcom board who will not only speak about specifically Welsh issues, of course, but will also be part of those general discussions regarding Ofcom policy that have far-reaching implications for the people of Wales. So, that is something that people—. I remember that the Welsh Government, in the early days, pressed for this when the Communications Act 2003 was passed. It didn't happen at that point, but it is going to happen in the near future.

[23] **Bethan Jenkins:** Jeremy.

Bethan Jenkins: Jeremy.

[24] **Jeremy Miles:** Diolch. Bore da. Rwyf am ddechrau drwy edrych ar drefniadau trwyddedu ar gyfer sianel 3.

Jeremy Miles: Thank you. Good morning. I want to start by looking at the licensing arrangements for channel 3.

[25] I've been to meetings that have lasted longer than ITV's weekly content obligation under the channel 3 licence, so I'm wondering whether you feel that the process of looking for a separate licence was worth it, if that's the obligation that we've ended up with at the end of it.

[26] **Mr Williams:** Rwy'n credu y gwnaed y penderfyniad ynglŷn â beth oedd yr oblygiadau i drwydded ITV pan wnaethom ni gynnal, nid yr

Mr Williams: I believe that the decision was taken as regards what the implications for the ITV licence when we held, not the last review of

adolygiad o ddarlledu cyhoeddus diwethaf ond yr un cyn hynny. Rwy'n gwybod bod y pwyllgor wedi clywed hyn gan gynrychiolwyr ITV, ond y cwestiwn oedd: beth oedd gwerth y drwydded yr oedd ITV yn ei derbyn? Mae'r hyn yr ym ni'n gallu gofyn i ITV i'w wneud yn gorfod bod yn gyson â gwerth y drwydded. Yn amlwg, roedd yna drafodaeth ynghylch a oedd y gofynion yn cael eu gosod ar lefel uwch, yna efallai y byddai yna risg y byddai ITV yn penderfynu, 'Wel, nid ydym am wneud hyn rhagor. Fe wnawn ni barhau i ddarlledu, ond nid fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus'.

the licence arrangements but the one before that. I believe that the committee heard this from ITV representatives, but the question was: what was the value of the licence that ITV received? What we can ask ITV to do has to be consistent with the value of that licence. Obviously, there was a discussion about whether those obligations were being placed on a higher level and whether there would then be a risk that ITV would then decide, 'Well, we're not going to do this any longer. Okay, we have to broadcast, but not as a public service broadcaster'.

[27] Ar ôl astudio yn fanwl iawn dros gyfnod o amser, ac ymgynghori, fe ddaethom ni i'r casgliad fod y pecyn o ofynion sydd yn weithredol ar hyn o bryd yn rhesymol ac yn gynaliadwy. Oedd, roedd yn golygu gostyngiad yn y rhaglenni heblaw am raglenni newyddion a oedd yn cael eu gwneud gan ITV. Ond rwy'n credu mai'r hyn a wnaethom ni oedd sicrhau bod yr elfennau pwysicaf yn y bwndel hwnnw o raglenni yn cael eu cadw, sef rhaglenni materion cyfoes a rhaglenni yn ymwneud â gwleidyddiaeth ac â materion defnyddwyr, a bod y rheini yn aros yn yr oriau brig.

Having studied it in great detail over a period of time, and having consulted on it, we came to the conclusion that the package of requirements that is in place at present is reasonable and sustainable. Yes, it did mean a reduction in the programmes apart from the news programmes delivered by ITV. But I believe that what we did was ensure that the most important elements in that bundle of programmes were retained, namely current affairs programmes and programmes relating to politics and user issues, and that they were to stay in the peak hours.

[28] Y rhaglenni a gollwyd oedd y rhaglenni a oedd yn cael eu darlledu, efallai, ar ôl 10.30 neu 11 o'r gloch y nos. Felly, roedd yr elfennau pwysicaf yn arlwy ITV wedi cael eu diogelu, ac

The programmes that were lost were those programmes that were broadcast, perhaps, after 10.30 or 11 o'clock at night. So, the most important elements in the ITV offer

rŷm ni wedi bod o'r farn, ers i'r penderfyniad gael ei gymryd, mai dyna oedd y penderfyniad cywir. Mewn oes lle dim ond pedair neu pum sianel deledu ddaearol oedd i gael, roedd y sefyllfa'n wahanol iawn, ond yn yr oes ddigidol, gyda channoedd o sianeli, lle mae modd i hysbysebwy'r brynu gofod hysbysebu ar nifer fawr o sianeli, mae'n rhaid bod yn realistig, rŷm ni'n meddwl, ynglŷn â gwerth trwydded ITV.

had been safeguarded, and we are of the view, since the decision was taken, that that was the correct decision. In an age when there were only four or five terrestrial channels, the situation was completely different, but in the digital age, with hundreds of channels available, where it's possible for advertisers to purchase advertising space on those hundreds of channels, we have to be realistic, we believe, about the value of the ITV licence.

[29] **Jeremy Miles:** Sut wnaethoch chi asesu gwerth eu safbwynt nhw yn y trafodaethau? Sut wnaethoch chi asesu taw pum awr a hanner oedd y penderfyniad iawn?

Jeremy Miles: How did you assess the value of their input in those negotiations? How did you actually come to the decision that five and a half hours was the right decision?

[30] **Mr Williams:** Drwy edrych ar werth y drwydded yn nhermau'r ffaith—pa gyfleoedd oedd ar gael, beth oedd y gystadleuaeth oedd gan ITV o ran darlledwyr eraill, faint o'r farchnad hysbysebu oedd ganddyn nhw, a faint o fantais oedden nhw'n ei chael o'r ffaith bod ganddyn nhw fynediad i'r sbectrwm digidol hynny. A hefyd, yr ased arall sydd ganddyn nhw, wrth gwrs, yw bod ganddyn nhw'r slot sianel 3 yna ar y canllaw rhaglenni electronig. Drwy roi'r rheini gyda'i gilydd, a'u mesur nhw yn erbyn ein hasesiad ni o gost cynhyrchu rhaglenni, daethom ni i gasgliad, fel y dywedais i, o ran y ffigur yr ŷm ni wedi cytuno arno yn awr—mae'n rhesymol, a'n ffigur, wrth gwrs, sydd yn wahanol yng Nghymru i'r hyn yw ef yn

Mr Williams: We looked at the value of the licence in terms of the fact—which opportunities were available, what competition ITV had as regards other broadcasters, how much of the advertising market that they had actually secured, and how much of an advantage they received from the fact that they had access to that digital spectrum. And also, the other asset that they have is that they have that channel 3 slot on the electronic programme guide. We put all of that together and then measured that against our assessment of the cost of programme production, and came to a conclusion, as I said, on the figure that we've now agreed upon, which is reasonable, and a figure, of course, which is different in Wales to what we have in the English regions. In the

rhanbarthau Lloegr. Yn rhanbarthau Lloegr, yn hytrach na 90 munud o raglenni heblaw am newyddion, hanner awr yw'r gofyniad, ond mae'r gofynion ar ITV yng Nghymru, yng Ngogledd Iwerddon, ac ar STV yn yr Alban, yn wahanol, yn uwch. Felly, roedd yna gydnabyddiaeth gan Ofcom ar y pryd bod parhau i ddarparu rhaglenni yn y cenhedloedd yn fwy pwysig ac yn cyfiawnhau ac yn teilyngu gofynion uwch.

English regions, instead of 90 minutes of programmes apart from news programming, the obligation is half an hour, but the obligation on ITV in Wales, in Northern Ireland, and on STV in Scotland is different, is higher. So, there was acknowledgment from Ofcom at the time that continuing to deliver programmes in the nations was more important and therefore justified and merited higher obligations.

[31] **Jeremy Miles:** Ond nid ydw i'n deall beth oedd y syniadaeth y tu ôl i gael trwydded benodol ar gyfer hynny, achos roedd hynny gyda chi dan y drwydded cyn hynny.

Jeremy Miles: Well, I don't understand the rationale behind having a specific licence for that, because you had that under the previous licence.

[32] **Mr Williams:** Oedd, mae hynny'n wir, ond rwy'n credu mai'r teimlad oedd, yn wahanol—. Roedd yna drwydded ar wahân, neu drwyddedau ar wahân, yn yr Alban, trwydded ar wahân yng Ngogledd Iwerddon, ond roedd trwydded Cymru rywsut yn gymysgedd o un drwydded yng ngorllewin Lloegr, a oedd ag un set o ofynion, a thrwydded arall yng Nghymru, gyda gofynion gwahanol.

Mr Williams: Yes, that is true, but I believe that the feeling was, different from—. There was a separate licence, or separate licences, in Scotland, a separate licence in Northern Ireland, but the Welsh licence was somehow a mix of one licence in the west of England, with one set of obligations, and another one in Wales, with different obligations.

[33] **Jeremy Miles:** Ond yr unig newid yw'r pum awr a hanner o gynnwys, a ydy hynny'n wir—y gwahaniaeth?

Jeremy Miles: But the only change is that five and a half hours of content, is that correct—the difference?

[34] **Mr Williams:** Wel, mae'r newyddion—mae yna ofyniad newyddion yng ngorllewin Lloegr hefyd, lle mai'r gwahaniaeth pwysig

Mr Williams: Well, there is a news obligation in the west of England too, but the important difference is that there's an additional hour of

yw bod yna awr ychwanegol o raglenni yn ymwneud â gwleidyddiaeth, materion cyfoes a materion defnyddwyr yn ychwanegol yng Nghymru i'r hyn sydd yna yn Lloegr. A'n teimlad ni oedd ei fod yn llawer iawn gwell, yn fwy eglur, bod hynny'n cael ei osod mewn trwydded ar wahân fel ei bod yn glir fod cyfundrefn ITV—ac efallai y bydd yna newidiadau perchnogaeth yn digwydd yn y dyfodol—y byddai yna drwydded ar wahân i Gymru, fel yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, gyda gofynion yn wahanol i ranbarthau Lloegr, ac roeddem ni'n meddwl bod hwnnw'n newid oedd yn werth ei wneud.

[35] **Jeremy Miles:** Océ. Diolch am hynny. Yn nhermau rheoleiddio telerau'r drwydded, a ydy hynny'n digwydd yma yng Nghymru neu a yw yn digwydd—sut mae hynny'n digwydd? Pwy sy'n gyfrifol o fewn Ofcom am sicrhau hynny?

[36] **Mr Williams:** Mae'n broses sydd yn digwydd ar y cyd. Mae yna dîm o arbenigwyr yn Llundain sydd yn gyfrifol am faterion trwyddedu yn gyffredinol ac am sicrhau bod pob un o ddeiliaid trwydded Ofcom drwy'r Deyrnas Unedig yn cadw at amodau eu trwydded nhw. Ond, yn amlwg, rŷm ni fel swyddogion yng Nghymru yn chwarae rhan yn hynny. Ni yn aml sydd yn gwybod beth sydd i'w gael ar y sgrin yn achos ITV—pa fath o raglenni sy'n cael eu gwneud, os oes yna ymateb negyddol neu bositif

programmes relating to politics, current affairs and consumer affairs additional in Wales to what you have in England. And our feeling was that it was very much better and clearer that that should be placed in a separate licence so that it would be clear that the ITV arrangement—and there may be ownership changes in the future—that there would be a separate licence for Wales, as you have in Scotland and Northern Ireland, with different obligations to those of the English regions, and we did believe that that was a change worth making.

Jeremy Miles: Okay. Thank you for that. In terms of regulating the terms of the licence, does that happen here in Wales or does it happen—how does it happen? Who's responsible within Ofcom for ensuring that that is in place?

Mr Williams: It's a joint process. There is a team of experts in London responsible for licensing arrangements generally and ensuring that each of the Ofcom licence holders throughout the United Kingdom adheres to their licensing conditions. But, obviously, we as officials in Wales play a role in that. We very often know what is available on the screen in the case of ITV—what types of programmes are being made, whether there is a negative or a positive response to them, and we

amdanyn nhw, ac rŷm ni'n collaborate with our colleagues in cydweithredu gyda'n cydweithwyr yn London to ensure that the terms of Llundain i sicrhau bod amodau'r the licence are kept. drwydded yn cael eu cadw.

[37] **Jeremy Miles:** Ocê. Diolch.

Jeremy Miles: Okay. Thank you.

[38] **Dai Lloyd:** Dim ond i bwysleisio'r cwestiynau, a phwysigrwydd y cwestiynau mae Jeremy wedi bod yn eu gofyn—cyddestun hyn i gyd, wrth gwrs, ydy, yng Nghymru, nad yw pobl yn darganfod eu newyddion am Gymru, ac am y lle hwn yn benodol, cymaint o'r papurau newydd, achos nid yw'r darpariaeth papurau newydd o Gymru, fel yr ydym ni wedi ei weld efo refferendwm Brexit, cystal â hynny fel bod pobl gael eu gwybodaeth. So, rydym ni'n dibynnu ar ofynion darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Dyna pam mae'r pwysigrwydd yma ar y drwydded, a dyna pam, i fod yn deg i Jeremy, mae ef wedi bod yn amlhau geiriau ynglŷn â'r pwysigrwydd yna. Wedyn, roeddwn i jest eisiau pwysleisio bod hynny yn bwysig, achos mae yna ddiffyg gwybodaeth am Gymru, sydd wedi dod yn eglur, ac rwy'n credu bod yn rhaid i'r sawl sydd ar y teledu wedyn fod yn camu i fewn i'r gwagle yna, achos nid yw'r papurau newydd yn cyfro Cymru. Mae pobl yn cael eu gwybodaeth o'r wasg Brydeinig. So, mae'n ofynnol felly i'r teledu fod yn camu i fewn ac, yn benodol, dyna pam pwysigrwydd y gofynion yma. A jest i danlinellu'r ffaith yna, rydym ni'n disgwyl cadarnhad o hynny a'r ffaith bod y

Dai Lloyd: If I could just emphasise the questions, and the importance of the questions that Jeremy has been asking—the context of all of this, of course, is that, in Wales, people get their news about Wales, and about this place particularly, not so much through the newspapers, because the provision of newspapers in Wales, as we saw with the Brexit referendum, isn't particularly strong in terms of providing information. So, we are dependent on public service broadcasting obligations. That's why this licence is so important, and that's why, to be fair to Jeremy, he has concentrated on the importance of that. I just wanted to emphasise that that is hugely important, because there is a lack of information about Wales, as has become clear, and I think the television providers do have to actually fill that void, because the newspapers don't cover Wales. People get their information from the British press. So, television has to step in there, and that is why these obligations are so very important. And just to highlight that fact, we expect confirmation of that and the fact that this licensing business, and the obligations on ITV, are taken seriously, and ensure that Ofcom does keep a close eye in order

busnes trwyddedu yma, a'r gofynion ar ITV, yn cael eu cymryd o ddifri, ac i wneud yn siŵr bod Ofcom yn archwilio'n fanwl bod y gofynion yna yn cael eu dal i fyny. So, buaswn i'n chwilio am sicrwydd o hynny, achos ei fod yn fater penodol hefyd ynglŷn â plwraliaeth, achos oni bai am hynny rydym ni'n mynd i ddibynnu jest ar y BBC. A dyna pam mae'n bwysig o'ch ochr chi, felly, i fynd ar ôl gofynion ITV.

to ensure that those obligations are met. So, I would seek an assurance on that, because it is a specific issue also in terms of plurality, because otherwise we're going to be entirely dependent on the BBC. That's why it is important, from your point of view, to go after the obligations on ITV.

[39] **Bethan Jenkins:** A wyt ti eisiau dod i fewn yn glou nawr, Jeremy?

Bethan Jenkins: Jeremy, do you want to come in quickly there?

[40] **Jeremy Miles:** Pan oedd ITV gyda ni, gwnaethon nhw sôn mai un o'r manteision o gael y drwydded oedd bod hi'n caniatáu iddyn nhw gymryd risgiau creadigol a buddsoddi yn y gwasanaeth ac ati. Ai dyna'ch argraff chi o sut mae'r berthynas yn mynd o dan y drwydded newydd?

Jeremy Miles: When ITV were here, they mentioned that one of the advantages of having the licence was that it allowed them to take creative risks and to invest in the service and so on. Is that your impression of how the relationship works under the new licence?

[41] **Bethan Jenkins:** Jest y ddau gwestiwn yna, felly, sori.

Bethan Jenkins: So, just two questions there, sorry.

[42] **Mr Williams:** Wel, yn sicr mae'r hyn y mae Dai yn ei ddweud ynglŷn â phlwraliaeth, a chyfraniad ITV i hynny, yn allweddol. Rydw i'n credu, ym maes newyddion, ym maes rhaglenni yn ymwneud â gwleidyddiaeth, a'r lle yma a San Steffan, fod cyfraniad ITV yn allweddol bwysig. Byddai Ofcom yn sicr yn cytuno bod cyfraniad ITV i blwraliaeth yng Nghymru yn bwysig iawn. Wedyn, rydw i'n credu—. Sori, a

Mr Williams: Well, certainly Dai's comments on plurality, and ITV's contribution to that, are crucial. I do think that, in terms of news and political coverage, and this place and Westminster, the contribution of ITV is crucially important. Ofcom would certainly agree that the contribution of ITV to plurality in Wales is hugely important. I think—. Sorry, would you mind repeating your question?

allech chi—?

[43] **Jeremy Miles:** Wrth gwrs. Pan oedd ITV gyda ni fan hyn, fe wnaethon nhw sôn mai un o'r manteision o gael y drwydded oedd ei fod yn caniatáu iddyn nhw gymryd risgiau creadigol, a buddsoddi yn y gwasanaeth ac ati. Rwyf jest yn moyn argraff bras gennych chi am hynny.

Jeremy Miles: Of course. When ITV came before us, they said that one of the advantages of having the licence was that it allowed them to take creative risks and invest in the service and so on. I just wanted your impression about that.

[44] **Mr Williams:** Rydw i'n credu, ers iddyn nhw gau'r ganolfan enfawr oedd arfer bod gyda nhw yng Nghroes Cwrlwys a symud i'r bae fan hyn, ein bod ni wedi gweld argoelion o hynny. Un o'r newidiadau, er enghraifft, yw ein bod ni wedi gweld am y tro cyntaf ers 25 mlynedd rhaglenni gan ITV Cymru yn ymddangos ar rwydwaith ITV. Mae hynny'n rhywbeth prin iawn gan unrhyw gynhyrchedd. Felly, mae hynny, rydw i'n credu, yn arwydd o'r uchelgais uwch rŷm ni wedi gweld yng Nghymru ers i'r drwydded newydd gael ei roi—ers bod yna sicrwydd yna.

Mr Williams: I do think, since they closed the huge centre that they had in Culverhouse Cross and moved down to the bay, that we have seen some promising signs of that. One of the changes, for example, is that we've seen for the first time in 25 years programmes by ITV Wales appearing on the ITV network. That's been very rare for any producer. So, I think that is a sign of the greater ambition that we have seen in Wales since the new licence was granted, and since that assurance and certainty was in place.

[45] Rydw i'n credu bod hynny i weld, eto, yn rhai o'r rhaglenni mae'r cwmni wedi bod yn eu darparu, a'r ffaith—i sôn amdano fe unwaith eto—eu bod nhw yn dal i gynhyrchu rhaglenni yn ymwneud â gwleidyddiaeth, ei fod yn bersbectif gwahanol i un y BBC, a'u bod nhw hefyd, mewn rhai enghreifftiau, wedi mynd y tu hwnt i ofynion y drwydded.

I think that that can be seen, again, in some of the output provided by the company, and—if I could return to this issue—the fact that they still produce programmes related to politics, and that they provide a different perspective to the BBC, and that, in certain examples, they have gone beyond the requirements of the licence.

[46] Felly, ar noson etholiadau'r

So, on the night of the Assembly

Cynulliad, roedd ITV yn darlledu trwy'r nos, er nad oedd hynny yn cyfrif tuag at eu gofynion nhw o gwbl. Felly, ar eu cost eu hunain, ar eu buddsoddiad nhw eu hunain, roedd y rhaglen honno yn cael ei chynhyrchu.

[47] **Bethan Jenkins:** Un cwestiwn clou ynglŷn â ITV cyn i ni symud ymlaen at y BBC: a fydddech chi'n disgwyl—rwy'n gwybod bod y cytundeb yn mynd hyd at 2025—bod mwy o oriau i Gymru o fewn unrhyw ailedrych ar gytundeb newydd yn y dyfodol? Hynny yw, a ydy pump awr a hanner yn ddigonol i gynnal yr hyn sydd yn digwydd yma yng Nghymru? Os ydyn nhw'n mynd dros yr hyn maen nhw'n i fod yn ei wneud yn barod, a fyddai disgwyl i hynny cael ei adlewyrchu mewn unrhyw gytundeb newydd?

[48] **Mr Williams:** Wel, fel rŷch chi'n ei ddweud, bydd bron i 10 mlynedd cyn ein bod ni'n ystyried y drwydded eto. Ond, yn y cyfamser, wrth gwrs, mae e'n rhydd i ITV gynhyrchu gymaint—os ydyn nhw eisiau mynd y tu hwnt i'r isafswm hwnnw sy'n cael ei osod yn y drwydded, mae rhyddid iddyn nhw wneud hynny, a byddwn ni yn croesawu iddyn nhw wneud hynny. Ond mater iddyn nhw yw hynny. Ni fyddwn yn ystyried y mater yn ffurfiol eto nes fydd y drwydded yn agosáu at ddod i ben.

[49] **Bethan Jenkins:** Océ, diolch. Suzy.

